

Noson Goffi

Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth i'r Noson Goffi a gynhaliodd aelodau capel Bethlehem Talybont yn y festri nos Fercher ddiwethaf er budd y gronfa a drefnwyd i estyn cymorth i Logan Sellers a'i deulu, wrth i'r bachgen bach wyth oed o'r pentref wynebu triniaeth ysbty. Llwyddwyd i godi £680 at y gronfa trwy waith caled yr aelodau a chefnogaeth y gymuned. Dym-unwn y gorau i Logan wrth gwrs.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Coch brynhawn Mawrth, Tachwedd 21. Rhagor o fanylion i ddilyn yr wythnos nesaf.

Banc bwyd

Diolch i bawb sy'n rhoi bwydydd yn y bocs Banc Bwyd yng nghyntedd Capel Coch. Caiff y bwydydd eu hanfon i Fanc Bwyd Caernarfon sy'n gwasanaethu'r dref a'r ardal yfagos.

Stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau post yn Capel Coch. Mae croeso i chi eu rhoi yn y bocs yn y cyntedd. O hyn allan, byddwn yn trosglwyddo'r stampiau i Haf Thomas, Buarthau, Llanrug er budd Cymdeithas y Deillion.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 29

5.00 p.m. - Mr Thomas A Williams

Tachwedd 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Tachwedd 5: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Tachwedd 5: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Ni fydd Ysgol Sul oherwydd gwyliau'r hanner tymor.

CARMEL

Nos Wener, Tachwedd 3: Dwylo Prys-ur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 5: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Tachwedd 5: Ni fydd yr Ysgol Sul oherwydd gwyliau'r hanner tymor. Cynhelir oedfa am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 5: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 29

10.00 a.m. - Mr John Roberts

5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Tachwedd 5

10.00 a.m. - Y Parchg Megan Williams

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard



Am ryw reswm, chefais i erioed fy nhemtio hyd yn oed i ystyried rhedeg Marathon. Tua thair milltir oedd y ras draws gwlad yn Ysgol Brynrefail, a dyna'r ras hiraf i mi ei rhedeg. Yn fy mlwyddyn gyntaf yn yr ysgol mi oeddwn (os cofiaf yn iawn) yn seithfed yn y ras honno, er fy mod yn yr un ras â phlant o leiaf ddwy flynedd yn hŷn na mi. Wnes i erioed cystal wedyn.

Ras fyrrach o gryn dipyn oedd y nesaf sy'n aros yn y cof. Ras 880 llath i fechgyn oed 'Canol' yn Chwaraeon y Sir ym Mangor (ar yr union gae y mae tim pêl droed Dinas Bangor yn chwarae arno yn Nantporth erbyn hyn). Er mawr syndod i mi fy hun, roeddwn ar y blaen lai na chan llath o'r llinell derfyn - nes i mi faglu (neu lwyr ddiffygio mae'n debyg) a syrthio ar fy hyd ar lawr.

Flynnydoedd yn rhy hwyr gwaetha'r modd y deallais mai rasys byrrach o lawer oedd orau i mi, wrth fwynhau ras y tadau yn Chwaraeon yr Ysgol neu ras dros ryw gan llath yng Ngharnifal y pentref. Ac er nad oeddwn mor gyflym ag Ussain Bolt, yn wahanol iddo fo mi lwyddais i roi'r gorau i'r cystadlu cyn i neb fy nghuro! Ac yn ddistaw bach, rwy'n falch o hynny o gofio fy mod yn hanner cant oed erbyn y ras olaf.

Roedd can llath neu lai yn gweddu i'r dim i mi. Byddai dau gan llath wedi bod yn ormod, heb sôn am chwe milltir ar hugain y Marathon.

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 746: 29 Hydref, 2017

Rhedeg yr yrfa

Mae'r Testament Newydd yn cymharu bywyd y Cristion â rhedeg ras. Cawn ein hannog i 'rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio' (Hebraid 12:1). Gellid cydio pob un o'r rasys uchod wrth y darlun hwn. Pam na wnes i'n dda ym mhob ras draws gwlad wedyn? Am fy mod yn gwybod wedyn ba mor hir oedd y cwrs. Awn ni ddim yn bell yn y bywyd Cristnogol os byddwn yn ofni'r hyn sydd o'n blaen. Pam aeth pethau'n flêr yn Nantporth? Am fy mod wedi cychwyn yn dda ond wedi methu dal ati i'r diwedd. Mae mwy na dechrau da i'r bywyd Cristnogol: mae angen dal ati i'r diwedd. Ac yn y rasys byr roedd rhaid cadw golwg ar y nod, ar y llinell derfyn o'm blaen er mwyn ennill. Yr un modd, 'rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu' yw'r alwad i'r Cristion. Heb wneud hynny, ni all neb fyw'r bywyd Cristnogol yn iawn.

Ond pe byddai raid dewis un ras sy'n gweddu i'r dim i'r darlun hwn, mae'n debyg mai'r Marathon fyddai honno. Nid ras ar wib dros gyfnod byr ond ymdrech oes i ddilyn yr Arglwydd Iesu Grist ac i fwynhau ei gwmni'n barhaus yw'r bywyd Cristnogol. Ar gyfer y fath ras, mae'n rhaid wrth ymarfer, ac y mae'n rhaid wrth ddyfalbarhad mawr yn wyneb pob rhwystr. Mae ymarfer yn hanfodol i'r Cristion, a thrwy weddi a myfyrdod yng Ngair Duw y ceir hwnnw er mwyn cryfhau a derbyn gras a chymorth i ymroi i fyw yn llwyr i Iesu Grist, i'w garu ac i'w wasanaethu bob munud o bob dydd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



BEIBL BYW

'Paid â dal yn ein herbyn ni ddyrgioni ein hynafiaid, ond doed dy dosturi atom ar frys, oherwydd fe'n darostyngwyd yn llwyr. Cymorth ni, O Dduw ein hiachawdwr-iaeth, oherwydd anrhydedd dy enw; gwared ni, a maddau ein pechodau er mwyn dy enw. Pam y caiff y cenedloedd ddweud, "Ple mae eu Duw?"

Yna, byddwn ni, dy bobl a phraidd dy borfa, yn dy foliannu am byth, ac yn adrodd dy foliant dros y cenedlaethau' (Salm 79:8-10, 13).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Waun-fawr ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli. Mae'r Ysgol Sul yn cael gwyliau hanner tymor heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Mr Thomas A Williams, Caernarfon.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Mae'r Ysgol Sul yn cael gwyliau hanner tymor heddiw. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Drr Elwyn Richards, Caernarfon.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd.

llun Efe

Cafwyd oedfa arbennig iawn yng Nghapel Coch, Llanberis nos Lun, Hydref 23 i groesawu a chomisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuentid a Theulu-oedd Cynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union.

Daeth Catrin i'w swydd ddechrau mis Medi, a buom yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr oedfa hon ers hynny, er mwyn cael ei chroesawu yn swyddogol.

Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn eithriadol o falch o gael cefnogaeth a chydweithrediad eglwys y Bedyddwyr yng Nghaersalem, Caernarfon a Scripture Union i gynnal y swydd hon a datblygu'r gwaith a wnaed ers sefydlu Efe ddeuddeng mlynedd yn ôl. Mae'r gefnogaeth honno wedi ein galluogi i gynnig swydd lawn amser i'n Gweithiwr newydd am gyfnod o dair blynedd.

Agorwyd yr oedfa gydag addoliad dan arweiniad Susan Williams ac aelodau o'r band sy'n arwain yr addoliad yng nghapel Caersalem. Cafwyd hanes sefydlu'r bartneriaeth newydd gan y Gweinidog ar ran Cynllun Efe, y Parchg Rhys Llwyd ar ran Caersalem a John Settatee ar ran Scripture Union. Darllenwyd rhannau

o'r Beibl gan y Parchg Carol Roberts. Wedi i Catrin rannu gair o brofiad, roedd y weithred o gomisiynu yng ngofal y Parchg Marcus Robinson. Gweddiwyd dros Catrin a thros y gwaith gan Andrew Settatee. Cafwyd neges onest a grymus yn y bregeth a draddodwyd gan dad Catrin, y Parchg Meirion Morris cyn i'r band ein harwain yn yr addoliad i gloi'r oedfa. Gareth Jones a Falmai Pritchard oedd yr organyddion.

Cyflwynodd Miss Dilys Mai Roberts flodau i Catrin fel arwydd o'n croeso, ac i Susan fel arwydd o werthfawrogiad o'i holl ymdrech yn parhau'r gwaith y bu Andrew yn ei wneud yn yr ysgolion fel Gweithiwr Efe cyn iddo symud i'w swydd newydd ddechrau mis Mawrth.

Wedi'r oedfa, cafwyd cyfle i fwynhau'r lluniaeth arbennig oedd wedi ei baratoi ar gyfer pawb; ac yr oedd yn braf iawn gweld cymaint o bobl wedi aros i wleda a sgwrsio. Yr oedd yn gyfle arbennig i gyfarfod â ffriidiau hen a newydd wrth i ni fentro ar lwybr newydd o gydweithio yng ngwasanaeth yr Efengyl.

Diolch i bawb a ddaeth i'r oedfa. Diolch i bawb a gymerodd ran ynddi, a diolch yn arbennig i bawb a fu'n paratoi'r bwyd neu a gyfrannodd ato. Diolch hefyd i bawb a fu'n helpu i glirio a golchi llestri ac ati ar y diwedd.

Cawsom noson fendithiol a fydd yn aros yn hir yn y cof.

Fel y cawsom ein hannog yn yr oedfa, gweddiwn dros Catrin a thros y gwaith y bydd yn ei wneud yn ein plith. Edrychwn ymlaen at gael cydweithio â hi dros y tair blynedd nesaf.

Mae llun o'r cyfarfod comisiynu i'w weld ar wefan Cynllun Efe ac ar dudalen Facebook Efe. Ewch i gronyn.org neu i dudalen Facebook 'Cynllun Efe' i'w weld.

Banc Bwyd

Diolch yn fawr am y rhoddion i Fanc Bwyd Arfon a gafwyd yn yr oedfaon Diolchgarwch yn Capel Coch ac yng nghapel Bethlehem y Sul diwethaf.

Diolch

Diolch i'r plant, yr ieuentid a'r aelodau a gymerodd ran yng ngwasanaethau Diolchgarwch eglwys i'r Ofalaeth dros y pythefnos diwethaf.

Cwrs Ieuentid

Blynyddoedd Ysgol 7-11
Yng Ngholeg y Bala
Nos Wener – Dydd Sul
Tachwedd 3-5, 2017

Holwch y Gweinidog am fanylion am y Cwrs Ieuentid nesaf hwn a gynhelir yng Ngholeg y Bala yn ystod gwyliau hanner tymor yr Ysgol y mis nesaf os ydych am i rywun gael cyfle i fynd yno.

Bocsys Nadolig

Bydd cyfle eleni eto i anfon anrhegion mewn bocs esgidiau i blant anghenus mewn gwledydd tramor trwy'r elusen Teams 4 U. Fel yr eglurwyd y llynedd, yr un bobl a sefydlodd yr elusen hon ag a sefydlodd Ymgyrch Plentyn y Nadolig (Operation Christmas Child).

Bydd angen i'r bocsys esgidiau fod yn barod erbyn nos Sul, Tachwedd 19.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener. Diolch i Gwenno, Dafydd a Catrin am eu help.

Bwrlwm

Cynhelir Bwrlwm yn festri Bethlehem, Talybont bawn Iau, Tachwedd 2 am 2.15 o'r gloch.